Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 26/04/2022 i'w hateb ar 04/05/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

1 OQ57979 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cynhwysiant digidol mewn cymunedau gwledig?

Joel James *Canol De Cymru*

2 OQ57961 **(e)**

Pa fentrau sydd gan Lywodraeth Cymru i helpu ffoaduriaid o Wcráin ac Afghanistan i integreiddio â chymunedau Cymru?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

3 OQ57955 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau hawliau cyfartal i blant ag anableddau?

Altaf Hussain *Gorllewin De Cymru*

4 OQ57947 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae Cymru'n cyflawni ei dyletswyddau i'r rheini sy'n ffoi rhag ymosodiad Rwsia ar Wcráin?

Buffy Williams *Rhondda*

5 OQ57968 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl sefydliadau'r trydydd sector o ran sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

6 OQ57954 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith chwyddiant ar bobl sy'n byw ar incwm isel?

Natasha Asghar *Dwyrain De Cymru*

7 OQ57962 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hybu ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OQ57977 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ei pholisi Rwanda ar gyfer ceiswyr lloches?

Peter Fox *Mynwy*

9 OQ57966 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio ei statws uwch noddwr i helpu pobl o Wcráin i geisio diogelwch yng Nghymru?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

10 OQ57965 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus eraill ynghylch rôl swyddogion prawf o ran sicrhau diogelwch cymunedol?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

11 OQ57980 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â gwrth-semitiaeth?

Sioned Williams *Gorllewin De Cymru*

12 OQ57957 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb i blant anabl?

CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

1 OQ57978 **(e)**

Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU mewn perthynas â thribiwnlys rhyngwladol i erlyn troseddau rhyfel Vladimir Putin yn Wcráin?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

2 OQ57964 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i rhoi i gyflwyno prentisiaeth cyfreithiwr lefel 7, fel sy'n bodoli yn Lloegr, i helpu i ehangu mynediad economaidd-gymdeithasol i'r proffesiwn cyfreithiol?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

3 OQ57981 (e)

Pa sgyrsiau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU am y frwydr barhaus dros gyfiawnder i deuluoedd Hillsborough?

Alun Davies *Blaenau Gwent*

4 OQ57950 (e)

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch hawliau ceiswyr lloches yng Nghymru yng ngoleuni cynllun Llywodraeth y DU i brosesu ceisiadau am loches o'r glannau hyn yn Rwanda?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

5 OQ57971 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch datblygu polisi etholiadau sy'n mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd mewn rhai wardiau yng Nghymru?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

6 OQ57956 (e)

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws apêl Llywodraeth Cymru i Oruchaf Lys y DU ar ei her gyfreithiol i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

7 OQ57972 (e)

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am rôl y Comisiwn Cyfansoddiadol yn y broses o ystyried maint y Senedd a'r system bleidleisio a ddefnyddir i ethol Aelodau o'r Senedd?

Jenny Rathbone *Canol Caerdydd*

8 OQ57958 (e)

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi diweddariad ar drafodaethau Llywodraeth Cymru gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â chanolfan gyfiawnder newydd i Gaerdydd?

COMISIWN Y SENEDD

Heledd Fychan *Canol De Cymru*

1 OQ57963 (e)

Pa asesiad y mae'r Comisiwn wedi'i wneud i ganfod a yw unrhyw rai o'i gontractwyr yn defnyddio arferion diswyddo ac ailgyflogi?

Jenny Rathbone *Canol Caerdydd*

2 OQ57959 **(e)**

Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i leihau'r defnydd o ynni yn adeiladau ystâd y Senedd?

Mabon ap Gwynfor *Dwyfor Meirionnydd*

3 OQ57960 **(e)**

Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i sicrhau bod ystâd y Senedd yn lle sy'n ystyriol o feigryn?